

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambwr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 8 Hydref 2018 am 6:45p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

27. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Ian Lewney a John Wynne Hughes. Yn absenoldeb y Cadeirydd, enwebwyd y Cynghorydd Robert Owen-Ellis i gadeirio'r cyfarfod.

28. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau.

29. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 yn gywir.

30. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

31. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2018/0343 – Tir yn (rhan o ardd) Y Fron, Stryd Mwrog, Rhuthun – Adeiladu annedd ar wahân a llunio mynediad newydd i gerbydau i wasanaethu'r annedd sy'n bodoli eisoes – Gwrthodwyd 02/2018/0882 – Tir yn (rhan o ardd) Tan y Gerddi, Stryd Mwrog, Rhuthun – Manylion y mecanwaith ar gyfer darparu gwagle agored trwy swm cymudol o £1,237.22 a chymeradwyo'r ffenestri a gyflwynwyd yn unol ag amodau 3 a 4 caniatâd cynllunio cod rhif 02/2018/0065 – Cymeradwywyd

32. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/0830 – Co-operative Retail Services Ltd, Ffordd yr Orsaf, Rhuthun

Arddangos hysbysebion/arwyddion yn gysylltiedig â'r Co-op.

Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad ynghylch y buddsoddiad yn archfarchnad Rhuthun. Roeddynt yn dymuno sicrhau bod yr holl arwyddion yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd, gan gyfeirio'n benodol at yr arwyddion wrth y fynedfa a ger y briffordd a hysbysfwrdd Cymuned Co-op. Awgrymwyd hefyd y dylid paentio'r gazebo ar Stryd y Farchnad a rhoi logo Co-op arno i'w gwneud yn glir bod y llwybr troed yn arwain at y siop.

02/2018/0942 – Fron Haul, Llanfwrog, Rhuthun

Dymchwel yr annedd sy'n bodoli, adeiladu annedd newydd, gosod pecyn trin carthion a gwaith cysylltiedig.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ond roeddynt yn dymuno, petai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, iddo fod yn ddarostyngedig i amod i sicrhau bod yr annedd gwreiddiol, neu'r adeiladau allanol, yn cael eu dymchwel a dileu hawliau datblygu a ganiateir, yn unol â Pholisi RD4 – Adnewyddu Anheddau sy'n bodoli eisoes, Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.

02/2018/0883 – 5 Llys y Castell, Rhuthun

Adeiladu estyniad porth.

33. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 12 Tachwedd 2018 am 6:45pm.*